

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Johnnie Roberts (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Lloyd Jones (Groes) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Abergele yr wythnos ddiwethaf. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Da clywed fod Iorwerth Williams (Hiraethog) a Nellie Jones (Groes) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn bob un o'r cleifion a'u teuluoedd i ofal tyner ein Duw.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bessie Owens (Cefn Berain) fydd yn datlu ei phen-blwydd yn 90 yfory! Diolchwn i Dduw amdani, gan hyderu y bydd yn parhau i gael nerth ac iechyd.

I ddod

- **CYFARFOD AR GYFER AELODAU EGLWYS HIRAETHOG** nos Lun, Chwefror 24ain am 7.30 yn y Granar, Llansannan.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il. Pris y penwythnos fydd £60 ond i bob person ifanc o'r Ofalaeth fydd yn mynd yno, bydd yr Ofalaeth yn rhoi gostyngiad o £10 a bydd yr Henaduriaeth hefyd yn cyfrannu £10, ac felly'n lleihau'r gost yn sylweddol. I archebu lle, anfonwch eich ffurflen, ynghyd â £10 o flaendal i Goleg y Bala, mor fuan â phosib. Cysylltwch â Rhodri i gael ffurflen neu fwy o fanylion.
- **CYRRAEDD CENHEDLAETH GOLL** – Cynhadledd undydd dydd Sadwrn, Mawrth 8fed o 9.45-4.15 yn Ysgol y Berwyn, Y Bala ar gyfer pawb sy'n ymwneud neu sydd â diddordeb mewn gwaith ieuentid, gwaith plant, ysgol a chyrraedd teuluoedd. Prif Siaradwr: Mark Griffiths (awdur 'One Generation from Extinction').
- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – "Taflu'r garreg gyntaf" gyda Joey G. Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 10fed am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am "Ffynhonnau".
- **LLANW** – cyfle i'r teulu cyfan ddatlu'r atgyfodiad yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16^{eg} Chwefror 2014

Darlleniad y Dydd

Job 39:1-4

(BCND tud.487 / BCN: tud.444)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da, a chroeso mawr i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw. Gobeithio'ch bod wedi dygymod â'r stormydd mawr yn ddiweddar a gweddiwn dros y rhai hynny sydd wedi wynebu colledion a phryderon yn sgil y tywydd garw.

Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw, rydym yn gweld rhan o ymateb Duw i gwestiynau mawr Job ynglŷn â dioddefaint. Nid yw'r Arglwydd yn cynnig atebion syml, ffwrdd a hi i Job, nac ychwaith yn rhoi esboniad manwl iddo o'i sefyllfa. Yn hytrach, mae'r Arglwydd yn arwain Job i ystyried cymhlethdod bywyd, a'r dirgelwch mawr sydd ynghlwm wrth lywodraeth Duw dros ei holl greadigaeth. Mae'n gwneud hyn ar ddechrau Job 39 trwy gyfeirio at yr anifeiliaid gwyllt nad oes neb dynol yn eu bugeilio, ond sydd serch hynny yn rhan o drefn creadigaeth Duw. A ninnau'n agosáu at gyfnod yr wyna, gallaf ddychmygu bod llawer o baratoi at y prysurdeb (a'r diffyg cwsgr!). Hyd yn oed gyda'r paratodau mwyaf trylwyr, mae llawer yn ddibynnol ar dywydd sy'n parhau'n anwadal ac yn gallu achosi problemau enfawr fel y gwelwyd y llynedd. Er ein holl ymdrechion fel dynoliaeth i ddeall y greadigaeth a'i threfn, rhaid i ni gydnabod bod elfen gref o ddirgelwch wastad am fodoli. Ond serch y dirgelwch yma, mae'r Beibl yn ein dysgu nad yw'r Cristion i fodoli mewn ansicrwydd na phryder parhaus ynglŷn â'r dyfodol. Lawer gwaith yn y Beibl, gwelwn enghreifftiau sy'n dangos y gallwn, ac y dylem ddibynnu ar yr Arglwydd sydd wedi'n creu ac yn ein galw i berthynas gariadus gyda'i hun trwy Iesu. Gallwn ddibynnu arno oherwydd ei allu mawr, ac yn sgil ei haelioni tuag at ei bobl. Sylweddolwn yn sgil hyn nad oes angen i ni adael i ofnau nac ansicrwydd danseilio ein ffydd. Cyfeiriodd Iesu yn ei bregeth ar y mynydd yn uniongyrchol at fywyd gwyllt er mwyn dysgu ei ddisgyblion nad oedd angen iddynt bryderu am yfory: 'Edrychwch ar adar yr awyr: nid ydynt yn hau nac yn medi nac yn casglu i ysguboriau, ac eto y mae eich Tad nefol yn eu bwydo. Onid ydych chi yn llawer mwy gwerthfawr na hwy?' (Mathew 6:26)

Beth am i ni fynd â'n cwestiynau dwys at Dduw mewn gweddi heddiw, ac er na chawn ateb i bopeth, diolchwn Iddo a molwn Ef wrth gofio neges ail bennill emyn Dafydd William (736 Caneuon Ffydd):

O anfeidrol rym y cariad,
anorchfygol ydyw'r gras,
digyfnawid yw'r addewid
bery byth o hyn i maes;

hon yw f'angor ar y cefnfor,
na chyfnawid meddwl Duw;
fe addawodd na chawn farw,
yng nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Galatiaid 1:6-10 (BCND tud.206 / BCN: tud.188)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant yn Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Gwener Cymdeithas Llansannan yn cyflwyno "Llan s'gan dalent" yn y Ganolfan am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg, ac yna bydd Ysgol Sul i'r oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Trebor Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Sul nesaf Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Mercher Cynhelir Swper Cymdeithas Cefn Berain yn Neuadd Llanefydd am 7.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.